



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwllans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust

YMDDIRIEDOLAETH
BRIFYSGOL GIG GWASANAETHAU
AMBIWLANS CYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL
SAFONAU'R GYMRAEG
2024-2025

Cynnwys

Rhagair	3
1. Cyflwyniad	5
2. Amdanom ni.....	5
3. Cefndir Safonau'r Gymraeg.....	6
4. Cynllun Gweithredu Mwy na geiriau 2022-27.....	6
5. Atebolrwydd a Chymorth	7
Y SAFONAU	9
6. Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1 – 77).....	10
7. Safonau Llunio Polisi (Safonau 69 – 77)	26
8. Safonau Gweithredu (Safonau 79 - 114)	26
9. Cwynion (Safon Cadw Cofnodion 115).....	35
10. Edrych Ymlaen - Blaenoriaethau ar gyfer 2025-2026.....	36

Rhagair

Croeso!

Fel Cadeirydd a Phrif Weithredwr Dros dro Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ('WAST' / 'yr Ymddiriedolaeth'), rydym yn falch o gyflwyno ein chweched adroddiad blynyddol ar weithredu Safonau'r Gymraeg.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu fframwaith cyfreithiol clir sy'n ei gwneud yn ofynnol i WAST, ynghyd â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus, gydymffurfio â Safonau penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Yn fwy na rhwymedigaeth statudol, mae'n cynnig cyfle gwerthfawr i gryfhau a gwella ansawdd ac argaeledd ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r adroddiad hwn yn dathlu'r cynnydd sylweddol a wnaethom yn ystod blwyddyn drawsnewidiol. Yn 2024/25, fe wnaethom lansio ein Polisi Iaith Gymraeg cyntaf, ymgorffori gwasanaeth cyfieithu, a chynyddu gwelededd a chlywadwyedd y Gymraeg ar draws y sefydliad. Mae'r datblygiadau hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad cynyddol i wneud y Gymraeg yn rhan naturiol a gweladwy o fywyd beunyddiol yn WAST, i'n staff a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn parhau i adeiladu ar egwyddorion 'Mwy na geiriau' a'r 'Cynnig Rhagweithiol' hy. sicrhau y gall pobl gael mynediad at wasanaethau Cymraeg heb orfod gofyn. Mae'r egwyddorion hyn bellach wedi'u plethu drwy ein dull gweithredu, gan ddylanwadu ar gyflawniad gweithredol a chynllunio strategol.

Gan edrych ymlaen, mae ein Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2025/26 yn nodi cyflawniadau clir ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys ymrwymiad i gryfhau ein llinell sylfaen ddwyieithog a datblygu Cynllun Ymgynghori Clinigol pum mlynedd ar gyfer y Gymraeg. Bydd y newid diwylliannol rydym yn ei feithrin, lle mae defnyddio'r Gymraeg yn cael ei annog a'i ddisgwyl, yn sbarduno gwelliannau pellach yn y ffordd yr ydym yn bodloni'r Safonau ac yn gwasanaethu ein poblogaeth. Mae ein Hamcanion Llesiant yn cynnig cyfle pwerus i gymryd golwg hirdymor ar sut rydym yn amddiffyn ac yn hyrwyddo ein hiaith a'n diwylliant cenedlaethol a byddant yn arwain ac yn ysbrydoli ein cynnydd yn y blynyddoedd i ddod.

Rydym wedi gwerthfawrogi ein cydweithrediad parhaus â Chomisiynydd y Gymraeg wrth nodi datrysiadau sy'n ymarferol ac yn uchelgeisiol, gan gefnogi hawliau siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg fel ei gilydd. Moment allweddol yn y daith hon oedd

y sesiwn datblygu'r iaith Gymraeg a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2024, a gadarnhaodd bwysigrwydd gofal iaith gyntaf, yn enwedig ar adegau o boen, straen, neu fregusrwydd. O ganlyniad, mae newidiadau bach ond pwerus fel dechrau a gorffen cyfarfodydd yn y Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg mewn cyfathrebu bob dydd yn dod yn fwy cyffredin ar draws y sefydliad.

Edrychwn ymlaen at adeiladu ar y momentwm hwn wrth i ni barhau i greu gweithle a gwasanaeth sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ein cenedl yn wirioneddol.



Colin Dennis
Cadeirydd



Rachel Marsh
Prif Swyddog Gweithredol Dros dro

1. Cyflwyniad

Dyma'r chweched Adroddiad Blynyddol sy'n dangos sut mae Safonau'r Gymraeg wedi cael eu gweithredu.

Ar 30 Mai 2019, symudodd yr Ymddiriedolaeth o weithredu ei Chynllun Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i weithredu Safonau'r Gymraeg fel rhan o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ymateb yn gadarnhaol i Safonau'r Gymraeg gan ei bod yn rhoi cyfle i atgyfnerthu a gwella ansawdd ac argaeledd ei gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

2. Amdanom ni

Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl ledled Cymru, gan ddarparu gofal clinigol o ansawdd uchel sy'n cael ei arwain gan gleifion lle bynnag a phryd bynnag y bo angen.

Mae'r gwasanaethau'n cynnwys y canlynol:

- Y gwasanaethau ambiwlans brys golau glas: gan gynnwys cymryd galwadau, ymgynghori clinigol o bell, gweld a thrin ac, os oes angen, cludo i ysbyty priodol neu gyfleuster trin priodol.
- Gofal Ambiwllans: gan gynnwys cymryd galwadau, cynllunio teithiau, comisiynu gwasanaethau, mynd â chleifion i apwyntiadau ysbyty ac oddi yno, a'u trosglwyddo rhwng ysbytai a chyfleusterau trin.
- Y gwasanaeth 111: gwefan a gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim, sy'n borth llinell gyntaf i daith glaf o fewn y system iechyd a gofal, gan roi'r cyngor neu'r atgyfeiriad iawn i'r claf.
- Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cefnogi gwirfoddolwyr: Ymatebwr Cyntaf yn y Gymuned, Ymatebwyr Lles Cymunedol ac Ymatebwyr mewn Lifrai i ddarparu

adnoddau ymateb ychwanegol ar gyfer galwadau brys a gwasanaeth ceir gwirfoddol i gynorthwyo â chludo cleifion i apwyntiadau wedi'u trefnu.

3. Cefndir Safonau'r Gymraeg

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i bob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith, sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau'n annog hybu'r Gymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol ac yn ei gwneud yn ofynnol bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer hygyrchedd y Gymraeg i'r cyhoedd.

Mae adran 44 o fesur 2011 yn caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg ddyroddi hysbysiad cydymffurfio sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un neu ragor o safonau sy'n benodol gymwys iddo. Yna cyflwynwyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 i sefydliadau'r sector iechyd yng Nghymru.

4. Cynllun Gweithredu Mwy na geiriau 2022-27



Ers lansio **Cynllun Gweithredu Mwy na Geiriau 2022-27** Llywodraeth Cymru yn 2022, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i gyflawni'r camau hynny fel bod y 'cynnig rhagweithiol' yn rhan annatod o ansawdd gwasanaethau a chyflawni gwasanaethau ar draws yr Ymddiriedolaeth lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb sy'n darparu gwasanaethau gofal i bobl a'u teuluoedd ledled Cymru i ddarparu'r cynnig rhagweithiol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau iechyd, gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol. Yn ystod cyfnod adrodd yr adroddiad hwn mae ein

Hamcanion Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-2028 wedi cael eu datblygu fel nodau trosfwaol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. O fewn yr Ymddiriedolaeth, mae'r

cysylltiad â'n gofynion y Gymraeg yn allweddol, ac mae ein strwythurau llywodraethu diwygiedig yn cyd-fynd â hyn. Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu sy'n cefnogi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac sy'n cyd-fynd â chynllun gweithredu Mwy na geiriau ac yn ychwanegol ato.

5. Atebolrwydd a Chymorth

5.1 Arweinwyr a Hyrwyddwyr y Gymraeg

Ochr yn ochr â Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth, y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, Trish Mills yw'r arweinydd gweithredol dros y Gymraeg, ac mae hi wedi bod yn allweddol wrth hyrwyddo datblygu Fframwaith y Gymraeg sy'n sicrhau bod strwythur, trylwyredd, llywodraethu a chysondeb er mwyn datblygu'r Gymraeg ledled yr Ymddiriedolaeth sy'n cwmpasu cydymffurfedd â gofynion statudol Safonau'r Gymraeg a chyflawni'r camau gweithredu o fewn Cynllun Gweithredu Mwy na geiriau 2022-27.

Mae Trish hefyd wedi bod yn arwain y gwaith o agor sgysiau mewn cyfarfodydd a gohebiaeth gan ddefnyddio Cymraeg sylfaenol. Yn ogystal, mae gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth Gyfarwyddwr Anweithredol, sef Bethan Evans sy'n gweithredu fel Cyfarwyddwr Anweithredol Hyrwyddwr Iaith Gymraeg y Bwrdd ac sydd wedi bod yn ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg o fewn yr Ymddiriedolaeth i'n staff ac yn allanol i'n defnyddwyr gwasanaeth trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yr Ymddiriedolaeth. Mae Bethan yn siaradwr Cymraeg rhugl ac mae ei chefnogaeth a'i her yn y maes hwn wedi bod yn amhrisiadwy.



Trish Mills

Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/
Ysgrifennydd y Bwrdd



Bethan Evans

Cyfarwyddwr Anweithredol

5.2 Grŵp Cyngori'r Gymraeg

Mae WAST wedi sefydlu Grŵp Cyngori'r Gymraeg sy'n adrodd i'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i gryfhau'r aliniad â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r Grŵp Llywio hwnnw'n adrodd yn uniongyrchol i'r Tîm Arwain Gweithredol ac mae'n cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Newid Diwylliant, Angie Lewis. Roedd hwn yn gam pwysig i ymgorffori cydymffurfedd drwy newid y diwylliant a'r agweddau tuag at y Gymraeg. Mae ein polisi a'n fframwaith wedi'u strwythuro fel hyn yn gyffredinol.

Mae'r Grŵp Cyngori'r Gymraeg hwn yn darparu mecanwaith ar gyfer adolygu agweddau ar Safonau'r Gymraeg ac i sicrhau bod gwasanaeth boddhaol yn cael ei gynnal i bob claf ac aelod o'r cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth.

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Grŵp wedi cynyddu ei gysylltiadau â Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un fath â nodweddion gwarchoddedig eraill yng Nghymru, ynghyd â gweithio ar y cyd â'r Pennaeth Cynhwysiant ac Ymgysylltu ar fentrau cynhwysol.

5.3 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Mae Pwyllgor Pobl a Diwylliant yr Ymddiriedolaeth yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd o'i drefniadau arwain o ran y Gymraeg, ac yn monitro cynnydd ac yn ceisio sicrwydd bod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r adroddiad blynyddol i'w gymeradwyo gan y Bwrdd ac mae ganddo oruchwyliaeth o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Gymraeg sy'n gysylltiedig â'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol (MIQPR) (Gwasanaeth 111 a NEPTS sy'n dod o dan bortffolio Gofal Ambiwllans), ac o dan gynllun gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae hefyd yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r newid diwylliannol sy'n cyd-fynd â'r cynnig rhagweithiol fel ffordd o gryfhau cydymffurfedd â Safonau. Yn 2024/25 cymeradwyodd y pwyllgor Bolisi'r Gymraeg cyntaf yr Ymddiriedolaeth.

5.4 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth

Cyfrifoldeb pennaf y Bwrdd dros y Gymraeg yw adolygu a chymeradwyo'r adroddiad blynyddol a goruchwylio dangosyddion perfformiad allweddol y Gymraeg sy'n gysylltiedig â'r MIQPR (111 a NEPTS) ac o dan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol trwy'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

5.5 Trefn Gwyno

Derbynnir pryderon ynghylch cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog Gweithredol neu Reolwr Gwasanaethau'r Gymraeg. Ymchwilir i bob cwyn a dderbynnir a darperir ymateb yn nodi unrhyw gamau unioni gofynnol. Rhoddir sylw i faterion sy'n ymwneud â diogelwch cleifion o dan y Rheoliadau Gweithio i Wella.

Os oes gan aelod o'r cyhoedd bryder ynghylch profiad diweddar o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg yr Ymddiriedolaeth, gallant gofrestru eu pryder drwy'r Tîm Gweithio i Wella, fodd bynnag, bydd dolen benodol ar gyfer pryderon ynghylch y Gymraeg yn cael ei datblygu yn 2025/26.

Gellir gweld manylion y cwynion a dderbyniwyd gan yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r Gymraeg yn Adran 9.

Y SAFONAU

Caiff cydymffurfedd â safonau'r Gymraeg ei chategoreiddio i'r meysydd cydymffurfio a ganlyn:

- Cyflenwi Gwasanaethau
- Llundio Polisi
- Gweithrediadau
- Cadw Cofnodion

Yn ystod 2024/25, defnyddiwyd arolwg hunanasesu cydymffurfedd â safonau'r Gymraeg i gasglu data ar gydymffurfedd â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, gan gynnwys y safonau penodol hynny a amlygwyd yn adroddiad 2023/24 i gael sylw arbennig wrth ddatblygu ein gwaelodlin cydymffurfedd yn ymwneud â Gohebiaeth, Cyhoeddi Dogfennau a Ffurflenni, Arwyddion a Gwasanaethau Derbynfa.

6. Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1 – 77)

Mae'r set hon o safonau yn nodi sut y mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd fel y gall siaradwyr Cymraeg gael mynediad dirwysr at wasanaethau Cymraeg; er enghraifft, wrth anfon gohebiaeth, delio â galwadau ffôn, darparu gwasanaethau ar-lein neu wyneb yn wyneb.

6.1 Gohebiaeth (Safonau 1 – 7)

Yn 2023/24 fe wnaethom ymrwymo i ddiweddarau'r canllawiau cyfredol ar ohebiaeth a'u cyfathrebu i'n staff; Cynhyrchu canllawiau ar reoli ceisiadau cyfieithu a sicrhau bod hyn ar gael ar dudalen SharePoint Safonau'r Gymraeg; A sicrhau bod Canllawiau Brand Corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn adlewyrchu gofynion Safonau'r Gymraeg i gefnogi a galluogi cydymffurfedd.

Nodwyd y meini prawf ar gyfer cydymffurfio yn y maes hwn fel a ganlyn:

- Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg gan aelod o'r cyhoedd yn derbyn ymateb yn y Gymraeg, oni bai bod y gohebydd wedi nodi fel arall.
- Bydd penawdau llythyrau, llofnodion e-bost, negeseuon allan o'r swyddfa ac unrhyw hunaniaeth gorfforaethol yn ddwyieithog.
- Dylai pob e-bost gynnwys y datganiad canlynol:

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg - byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddwy ac yn ateb yn eich dewis iaith heb oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English - we will respond equally to both and will reply in your language of choice without delay.

Defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth ddull cyson o ran cydymffurfio â'r safonau hyn. Diweddarwyd Canllawiau Brand yr Ymddiriedolaeth i adlewyrchu'r fformat cywir ar gyfer papur pennawd dwyieithog a llofnodion e-bost, gan nodi bod yr unigolyn yn 'croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg'. - Yna postiwyd y canllawiau hyn ar fewnwyd yr Ymddiriedolaeth (Siren) a'u cysylltu â thudalen SharePoint Safonau'r Gymraeg. Roedd staff hefyd yn gallu cael mynediad at dempled pennawd llythyr a thempled llofnod e-bost o dudalen SharePoint bwrpasol.

Dangosodd canlyniadau o adolygid o gydymffurfedd lefel uchel o gydymffurfedd mewn perthynas â'r safonau gohebiaeth pan dderbyniwyd gohebiaeth yn y Gymraeg drwy ymholiadau'r Cyfryngau, Pryderon, ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth, llythyrau a anfonwyd yn uniongyrchol at y Prif Swyddog Gweithredol, ac ymholiadau

a dderbyniwyd gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg - darparwyd ymateb yn y Gymraeg ym mhob un o'r sefyllfaoedd hyn.

Er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol o ran cydymffurfedd â'r safonau gohebiaeth, bydd fideo byr yn amlinellu'r gofynion cydymffurfio yn cael ei greu a'i wneud ar gael i'n staff yn ystod 2025/26.

6.2 Galwadau Ffôn (Safonau 8 – 20)

Nid yw Safonau'r Gymraeg yn gosod unrhyw ofyniad cyfreithiol i ateb galwadau 999 yn Gymraeg. O dan [Reoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 7\) 2018](#), Paragraff 35: Nid yw safonau 8 i 10 a 13 i 16 yn gymwys i alwadau a wneir i'r rhif ffôn 999.

Mae galwyr i'r Gwasanaeth 111 a Gofal Ambiwylans yn derbyn cyfarchiad dwyieithog wedi'i recordio ac yna dewis iaith o'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae dewis iaith y Gymraeg ar gyfer NEPTS yn cael ei gofnodi ar y system Cleric a dewis iaith ar gyfer y Gwasanaeth 111 yn cael ei gofnodi ar y system C3/CAD (Dosbarthu â Chymorth Clinigol).

Mae ateb galwadau yn y Gymraeg ar gyfer y Gwasanaeth 111 wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol (MIQPR) a adroddir i'r Bwrdd. Mae'r rhain ac ateb galwadau Gofal Ambiwylans yn cael eu hamlygu'n fwy penodol yn y paragraffau canlynol.

6.2.1 Adolygiad Gwasanaeth GIG 111 Cymru

Yn ystod 2023/24, adroddwyd am gynnydd sylweddol mewn perfformiad yng nghanran y galwadau GIG 111 Cymru a atebwyd yn y Gymraeg o 18% yn 2022/23 i 45%. Yn ystod 2024/25, arhosodd nifer y galwadau a oedd yn gofyn am y gwasanaeth Cymraeg hwn yn isel fel yr adroddwyd yn 2023/24 (llai nag 1% o'r holl alwadau 111); fodd bynnag, mae tîm arweinyddiaeth y Gwasanaeth 111 yn cydnabod pwysigrwydd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu.

O ganlyniad, mae'r Cynllun Gwella Iaith sy'n parhau (a nodir isod) yn cael ei adolygu a'i addasu'n gyson i gynnal lefelau perfformiad presennol a gwella ymhellach nifer y cleifion sy'n gallu derbyn gwasanaeth yn y Gymraeg os mai dyma eu dewis.

Cyfradd galw ac ateb galwadau Cymraeg Gwasanaeth GIG 111 Cymru 2024-2025

Galw am y Gymraeg	Cyfanswm y galwadau a atebwyd ar gyfer 111	Galwadau Cymraeg a Gynigiwyd	Cyfanswm y galwadau a atebwyd yn Gymraeg	% y galwadau a atebwyd yn Gymraeg
01/04/24 – 31/03/25	815,562	18,462	8,444	45.7%
01/04/23 – 31/03/24	843,464	17,792	8,099	45.5%

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cyflwynwyd sawl menter newydd sydd wedi arwain at gynnydd bach ond amlwg yn nifer y galwadau a atebwyd yn y Gymraeg o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Un newid arwyddocaol, a weithredwyd ym mis Mehefin 2025, oedd cyflwyno opsiwn newydd i alwyr dewis peidio ag aros am alwad sy'n siarad Cymraeg ar ôl amser trothwy o 15 munud. Mae hyn yn caniatáu i alwyr ddewis ailymuno â'r ciw Saesneg os yw'n well ganddynt, gan roi'r hyblygrwydd iddynt benderfynu a ydynt am aros am driniwr galwadau sy'n siarad Cymraeg ai peidio.

Ar ben hynny, yn dilyn dadansoddiad manwl o weithgarwch galwadau Cymraeg, rydym wedi mabwysiadu proses newydd ar gyfer dydd Sadwrn, dydd Sul, a Gwyliau Banc rhwng 8:00am a 2:00pm. Yn ystod yr amseroedd brig hyn, rydym wedi addasu proffiliau dau driniwr galwadau sy'n siarad Cymraeg fel eu bod nhw'n rheoli galwadau sy'n cyflwyno'r Gymraeg yn unig. Mae'r addasiad hwn wedi ein galluogi i ymdrin yn effeithlon â'r nifer uwch o alwadau Cymraeg yn ystod y cyfnodau prysur hyn, gan arwain at gynnydd nodedig yn y gyfradd ateb yn y Gymraeg.

Mae recriwtio wedi'i dargedu ar gyfer trinwyr galwadau sy'n siarad Cymraeg hefyd wedi bod yn gymharol lwyddiannus, gan helpu i gynnal y gyfradd ateb galwadau Cymraeg. Yn ogystal, mae cefnogaeth barhaus i staff drwy sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â galwadau sy'n cyflwyno yn y Gymraeg. O ganlyniad, rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y cwynion am y Gymraeg i'r gwasanaeth, fel y gwelir yn Adran 9.

Mae'r ffocws ar berfformiad cyfradd ateb galwadau Cymru yn parhau i fod yn uchel ymhlith tîm arwain gweithredol 111. Mae'r mentrau hyn yn rhan o'r ymdrechion parhaus i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n galwyr sy'n siarad Cymraeg. Drwy barhau i deilwra ein dull yn 2025/26 a thu hwnt i ddiwallu eu hanghenion, y nod yw gwella eu profiad a sicrhau eu bod yn derbyn gwasanaeth amserol ac effeithiol.

6.2.2 Gofal Ambiwylans

Cyfradd galw ac ateb galwadau Cymraeg Gofal Ambiwylans 2024-2025

Galw am y Gymraeg	Cyfanswm y galwadau a atebwyd ar gyfer NEPTS	Galwadau Cymraeg a Gynigiwyd	Cyfanswm y galwadau a atebwyd yn Gymraeg	% y galwadau a atebwyd yn Gymraeg
01/04/24 – 31/03/25	215,353	4,294	4,327	77%
01/04/23 – 31/03/24	232,442	3,951	3,923	89%

Croesewir pawb sy'n galw i'n Canolfan Alwadau Cludiant Cleifion Difrys gyda chyfarchiad dwyieithog, ac yna ein system Ymateb Llais Integredig (IVR) sy'n caniatáu i alwyr ddewis eu dewis iaith, sef Cymraeg neu Saesneg o'r pwynt hwn. Yn dibynnu ar eu dewis bydd pob neges yn cael ei chyflwyno yn eu dewis iaith.

Caiff galwyr sy'n siarad Cymraeg eu cyfeirio trwy'r Ymateb Llais Integredig (IVR) i'n Trinwyr Galwadau sy'n siarad Cymraeg. Os yw ein Derbynwyr Galwadau sy'n siarad Cymraeg yn brysur gyda galwyr eraill, mae'r galwr yn cael ei ailgyfeirio i'r derbyniwr galwadau Cymraeg neu Saesneg nesaf sydd ar gael i osgoi amser aros diangen. Mae'n bwysig nid yn unig darparu profiad galwadau Cymraeg llawn ond hefyd sicrhau nad oes unrhyw oedi hir yn digwydd os yw pob un o'n derbynwyr galwadau Cymraeg yn delio â galwadau eraill.

Pan fydd galwyr yn cysylltu â NEPTS byddant yn cael Asesiad o Anghenion y Claf sef set strwythuredig o gwestiynau wedi'u cynllunio i bennu anghenion a gofynion meddygol pob claf sy'n teithio gyda NEPTS. Y tu hwnt i nodi'r anghenion penodol ar gyfer taith benodol, mae'r asesiad o anghenion y claf hefyd yn asesu cymhwysedd y claf i gael cludiant, gan sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rhai sydd ag angen meddygol penodol.

Wedi'i integreiddio o fewn system Cleric, cynhyrchir y PNA yn awtomatig pan fydd manylion cleifion yn cael eu nodi ar gyfer cais archebu newydd. Mae ei fformat anunionlin yn golygu nad yw'r cwestiynau'n dilyn dilyniant sefydlog; yn lle hynny, mae pob cwestiwn yn cael ei gynhyrchu'n ddeinamig yn seiliedig ar yr ymateb i'r un blaenorol. Mae'r dull addasol hwn yn caniatáu llwybrau lluosog wedi'u teilwra i ofynion a chymhwysedd unigryw'r claf.

Mae'r asesiad o anghenion y claf wedi'i gyfieithu'n broffesiynol ac yn cael ei ddiwygio'n gyson, ac mae'r cyfieithiadau Cymraeg bob amser yn cael eu diweddarau i'w defnyddio gan ein derbynwyr galwadau sy'n siarad Cymraeg.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer y derbynwyr galwadau sy'n siarad Cymraeg yng Nghanolfan Gyswilt Cludiant Di-frys drwy flaenoriaethu recriwtio siaradwyr Cymraeg pryd bynnag y bo modd. Er mai ein nod yw llenwi swyddi wag ar gyfer derbynwyr galwadau gydag ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg, gall hyn fod yn heriol oherwydd y nifer gyfyngedig o ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg.

6.3 Cyfarfodydd (Safonau 21 – 30)

Pan fydd yr Ymddiriedolaeth yn trefnu cyfarfod ag aelod/neu aelodau o'r cyhoedd, gofynnir i'r rhai sy'n mynychu a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Lle mae unigolion yn mynegi awydd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod, bydd yr Ymddiriedolaeth yn parchu ac yn darparu ar gyfer y dewis hwnnw. Mae gan gyfarfodydd y Bwrdd aelodau sy'n siarad Cymraeg yn bresennol, ac mae holl gyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu ffrydio'n fyw trwy Teams.

Gwahoddir y cyhoedd i ymuno ar Microsoft Teams i wrando ar uwch arweinyr yn trafod y Cynllun Tymor Canolig Integredig, sy'n nodi nodau ac uchelgeisiau allweddol y sefydliad ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Yn allweddol i gynllun 2025-2028 mae esblygiad model clinigol yr Ymddiriedolaeth a'i nod i ddarparu'r gofal neu'r cyngor iawn, yn y lle iawn, bob tro.

Dyweddodd Colin Dennis, Cadeirydd Gwasanaethau Ambiwilans Cymru: "Mae cyfarfodydd bwrdd yn gyfle i ddysgu am ein gwasanaeth ambiwlans ac i ddeall y prosesau y tu ôl i'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y Bwrdd.

"Maen nhw hefyd yn gyfle i glywed yn uniongyrchol am y gwaith sy'n digwydd yma a sut i wella pethau i'n pobl a'n cleifion, yn ogystal â gofyn cwestiynau i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau."

Cliciwch ar y ddolen mewn sylwadau i ddarganfod mwy a sut i ofyn cwestiwn i'r Bwrdd.

Ymunwch â ni ar Microsoft Teams

27 Mawrth 2025



The Welsh Ambulance Service is preparing to host its bi-monthly Board meeting.

You are invited to join on Microsoft Teams to hear senior leaders discuss the Integrated Medium-Term Plan, which sets out the organisation's key aims and ambitions for the next three years

Colin Dennis, Chair of the Welsh Ambulance Service, said: "Board meetings are an opportunity to really learn about our ambulance service and to understand the processes behind the decisions being made by the Board.

"They're also an opportunity to hear first-hand about the work that's happening here and how to improve things for our people and our patients, as well as put questions to its decision-makers."

Click the link in comments to find out more and how to pose a question to the Board.

Join us on Microsoft Teams

27 March 2025



Anfonir gwahoddiadau ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth at ein partneriaid yn ddwyieithog drwy e-bost ynghyd â chyfryngau cymdeithasol a dolenni'r wefan, sydd ill dau hefyd yn ddwyieithog.

Mae holl agendâu cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar gael yn Gymraeg. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023-24 yr Ymddiriedolaeth yn ddwyieithog yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Medi 2024, fel y bydd yr adroddiad hwn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

6.4 Digwyddiadau Cyhoeddus (Safonau 31 – 32)

Mewn perthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir yn ystod digwyddiad, bydd gwahoddiad neu hysbyseb y digwyddiad yn gofyn i bersonau ein hysbysu os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg. Lle mae hyn yn digwydd, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu yn y digwyddiad. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod pob gwahoddiad a hysbysiad i'r cyhoedd yn ddwyieithog.

Profiad y Claf a Chynnwys y Gymuned

Fel rhan o fodel ymgysylltu parhaus tîm Profiad y Claf a Chynnwys y Gymuned (PECI), mae WAST wedi mynychu sawl digwyddiad ymgysylltu cyhoeddus a chymunedol ledled Cymru. Mae'r tîm PECI yn darparu gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan WAST ynghyd ag adnoddau hygyrch sy'n benodol i oedran a demograffig. Mae'r holl ddeunydd a gynhyrchir yn ddwyieithog a rhoddir dolenni i bobl i roi eu hadborth yn eu dewis iaith.

Ap Hwb Golau Glas

Wedi'i ddylunio gan WAST, Mae ap Hwb Golau Glas, adnodd addysgol dwyieithog a gynlluniwyd ar gyfer plant 7–12 oed, wedi lansio ei chweched gêm yn ddiweddar, *CPR*, gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth a gwella hyder a sgiliau achub bywyd ymhlith pobl ifanc. Mae'r ychwanegiad newydd hwn yn ategu'r gyfres bresennol o gemau, sy'n cynnwys *7 Gwiriad Pwysig*, *Gwisgo i Fyny*, *cwis*, *Anfon*, a *Galw 999*.

Er bod WAST eisoes yn ymgysylltu ag ysgolion a grwpiau cymunedol yn bersonol, gall cyrraedd pob person ifanc fod yn heriol. Mae'r dull digidol hwn yn darparu ffordd gyffrous a rhyngweithiol o addysgu plant am rôl y gwasanaethau brys. Mae'r gemau'n caniatáu i chwaraewyr gamu i wahanol rolau, profi gwahanol agweddau ar ymateb brys, a dysgu pryd mae'n briodol ffonio 999.

Cwrddwch â Jack a Kim, masgotiaid Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn ein app am ddim Hwb Golau Glas.

Chwaraewch gemau cyffrous i ddysgu am ffonio 999 ac anfon ambiwlansys i helpu pobl.

Y gorau y byddi d'i'n gwneud y mwya' o wobrau y galle ti eu hennill!

- > Arbenigwr wedi'i gymeradwyo
- > Hwb achrededig
- > Gradd 4.9 seren
- > Oed 7–12

Sgwirwch y QR i'w lawrwytho nawr

AMBIWLANS

Meet Jack and Kim, our Welsh Ambulance Service mascots, in our free Blue Light Hub app.

Play exciting games to learn about calling 999 and sending ambulances to help people.

The better you do, the more rewards you can win!

- > Expert approved
- > Hwb accredited
- > 4.9 star rating
- > Age 7–12

Scan the QR to download now

AMBIWLANS

Cymorth ar ôl CPR

Mae Achub Bywyd Cymru a WAST wedi cydweithio â rhanddeiliaid allweddol ledled y DU i gynhyrchu adnodd ar-lein, sy'n cynnwys yr holl adnoddau cymorth sydd ar gael ledled y DU. Mae'r dudalen we wedi'i chynnal gan Gyngor Dadebru'r DU, sydd wedi'u lleoli yn Llundain <https://www.resus.org.uk/public-resource/support-after-cardiac-arrest>.

Cefnogaeth i chi
Ydych chi wedi bod yn dyst neu wedi perfformio CPR?
Ydych chi'n oroeswr ataliad y galon neu'n aelod o'r teulu?

Support for You
Have you witnessed or performed CPR?
Are you a cardiac arrest survivor or family member?

0808 8021234
www.resus.org.uk/support-after-ca

ACHUB BYWYD CYMRU
SAVE A LIFE CYMRU

Resuscitation Council UK

Cefnogaeth i chi
Ydych chi wedi bod yn dyst neu wedi perfformio CPR?
Ydych chi'n oroeswr ataliad y galon neu'n aelod o'r teulu?

0808 8021234
(yn ystod yr wythnos 9am-5pm)
resus.org.uk/support-after-ca

ACHUB BYWYD CYMRU
SAVE A LIFE CYMRU

Resuscitation Council UK

Bydd gan bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru dudalen ddwyieithog yn cyfeirio at yr adnodd. Mae gan y dudalen we gymorth ar ôl CPR adran ar wahân ar gyfer Cymru, sy'n cyfeirio at gynnwys dwyieithog. Mae llinellau cymorth

wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, ond mae ganddyn nhw broses ar waith i sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg barhau â'u sgwrs yn y Gymraeg, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Bydd y prosiect hwn yn asesu gofynion y trinwyr galwadau, gan gynnwys yr wybodaeth a'r iaith sydd eu hangen, a bydd yn helpu i lunio gwasanaethau'r dyfodol yng Nghymru.

Rhwydwaith Pobl a'r Gymuned

Mae cynllun gweithredu i dyfu Rhwydwaith Pobl a'r Gymuned yr Ymddiriedolaethau wedi'i lunio gyda ffocws ar y canlynol:

- oedran
- lleoliad daearyddol
- amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant
- Y Gymraeg

Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i ddrafftio i gynnwys ymgysylltu â phobl ifanc mewn addysg ffurfiol ac anffurfiol a defnyddio data iechyd y boblogaeth o ardaloedd daearyddol allweddol ledled Cymru. Ein bwriad yw tyfu'r Rhwydwaith yn unol â phum egwyddor cyd-gynhyrchu, fel y'u diffinnir gan Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru.



6.5 Dogfennau a Ffurflenni (Safonau 36 - 38)

Yn 2023/24 fe wnaethom ymrwymo i sicrhau y byddai pob aelod o staff yn ymwybodol o'r angen i gynhyrchu gwybodaeth i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddai canllawiau cyfredol ar ddelio â chynhyrchu a chyhoeddi dogfennau yn cael eu diweddarau; Byddai canllawiau ar reoli ceisiadau am gyfieithu ar gael ar dudalen SharePoint Safonau'r Gymraeg; Byddai gweithdrefn asesu yn cael ei datblygu ar gyfer y gofyniad i gyfieithu dogfen gan ystyried y pwnc a disgwyliadau'r gynulleidfa; Yn ogystal, byddai pob dogfen a ffurflen a gynhyrchir yn cael eu dylunio a'u fformatio'n fewnol yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

Ers dechrau mis Medi 2023, mae gan yr Ymddiriedolaeth wasanaeth cyfieithu mewnol pwrpasol, sydd ar gael i'r holl staff yn rhad ac am ddim trwy gyfrif e-bost a blwch negeseuon e-bost cyffredinol. Yn ogystal, mae canllawiau ar gyfer staff ynghylch sut i gyrchu a chyflwyno gwaith i'w gyfieithu bellach ar gael ar ein safle SharePoint. Mae'r cyfleuster hwn wedi bod yn allweddol i alluogi cydymffurfedd â'r safonau ynglŷn â dogfennau a ffurflenni.

Dangosodd canlyniadau adolygiad o ddogfennau a gyhoeddwyd ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2024/25 lefel uchel o gydymffurfedd â chyhoeddi dogfennau'r Ymddiriedolaeth yn y Gymraeg megis Strategaethau a Chynlluniau ee. Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024/25 ac Adroddiadau Blynyddol ee. Adroddiad Blynyddol WAST 2022-2027.

Fel y nodwyd uchod, er mwyn cynorthwyo meysydd gwasanaeth i benderfynu a oes angen cyhoeddi dogfennau'n ddwyieithog, bydd angen datblygu proses asesu yn ystod 2025/26, a fydd yn asesu dogfennau yn seiliedig ar: a yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei chynhyrchu yn y Gymraeg, neu a yw'r gynulleidfa ddisgwyliedig, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cynhyrchu'r ddogfen yn y Gymraeg a chofnodi'r penderfyniadau a wneir yn dilyn yr asesiad.

Lle bynnag y bo modd, cyhoeddir dogfennau'r Ymddiriedolaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolaeth ac Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg yn cynnwys datganiad yn y fersiwn Saesneg o'r adroddiad bod fersiwn Cymraeg o'r adroddiad ar gael. Yn ystod 2025/26, bydd awduron cyhoeddiadau yn cael eu hatgoffa o'r gofyniad hwn drwy ein gwasanaeth cyfieithu pan fydd cyhoeddiadau wedi'u cyfieithu yn cael eu dychwelyd i'r awdur a thrwy hyrwyddo ein canllawiau safonau'r Gymraeg ar gyhoeddiadau.

Ffurflen peidio â thrawsgludo cleifion

Er mwyn sicrhau bod ein cleifion sy'n siarad Cymraeg yn gallu derbyn fersiynau Cymraeg o ddogfennaeth WAST, crëwyd fersiwn Cymraeg o'n ffurflen peidio â thrawsgludo cleifion. Rhaid cwblhau ffurflen peidio â thrawsgludo ar gyfer pob claf nad yw'n cael ei gludo i'r ysbyty yn dilyn presenoldeb WAST. Mae'n rhoi gwybodaeth allweddol i gleifion, perthnasau a gofalwyr y gellir gyfeirio ati ar ôl i staff WAST adael y lleoliad. Mae'r ffurflen yn rhan o gofnod iechyd y claf ac o ganlyniad rhaid i'r clinigwr ei chwblhau yn Saesneg. Bydd y fersiwn Gymraeg o'r ffurflen yn cefnogi ein staff sy'n siarad Cymraeg ac yn cynorthwyo ein cleifion sy'n siarad Cymraeg a'u gofalwyr yn ystod yr ymgynghoriad rhyddhau.

6.6 Deunydd cyhoeddusrwydd a Hysbysebu (Safonau 33 – 34)


Mae unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu hysbysebu y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei gynhyrchu ar gyfer y cyhoedd bellach ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Datblygwyd a hyrwyddwyd yr ymgyrch gyhoeddusrwydd dwyieithog a ddangosir isod drwy gyfryngau cymdeithasol ar gyfer aelodau'r cyhoedd mewn perthynas â

chadw'n ddiogel dros wyliau banc, ynghyd â hyrwyddo Amcanion Llesiant yr Ymddiriedolaeth: Canolbwyntio ar y Dyfodol.

Gydar' tywydd cynnes yn tebygol o barhau dros benwythnos Gŵyl y Banc, cymerwch ofal os ydych chi allan yn mwynhau'r haulwen.

- Lawrwythwch yr ap what3words i helpu'r gwasanaethau brys i ddod o hyd i leoliadau sy'n anodd eu disgrifio
- Cadwch becyn cymorth cyntaf wedi'i stocio'n dda yn y tŷ a'r car
- Byddwch yn synhwyrol gydag alcohol, yn enwedig os ydych chi'n treulio amser ger dŵr
- Sicrhewch eich bod wedi eich hydradu a chofwch roi eil haul ar eich wyneb.

Mae'r cyfrif palli hefyd yn parhau i fod yn uchel, felly gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cario'ch anadlydd ac unrhyw feddyginiacth cefyd y gwalr gyda chi bob amser.




Helpwch ni i'ch helpu Gŵyl Banc hwn trwy ddefnyddio ein gwasanaeth yn gyfrifol

With the warmer weather looking to remain for the Bank Holiday Weekend, please take care if you're out enjoying the sunshine.

- Download the what3words app to help emergency services find hard to describe locations
- Keep a well-stocked first aid kit in the house and car
- Be sensible with alcohol, especially if you are spending time near water
- Stay hydrated and remember to apply sunscreen

The pollen count also remains high, so make sure you carry your inhaler and any hay fever medication with you at all times.



Help us help you this Bank Holiday by using our service responsibly

EIN HAMCANION LLESIANT: CANOLBWYNTIO AR Y DYFODOL
Ein cyfraniad at Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFGA)

Beth yw hyn?
Mae Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i ddiwyddu'n ddiwyddu i Wladwriaeth Amgylchedd Cymru os ydych chi, ar 2024.

Ein Hamcanion Llesiant
Amcan Un: **Cyflwyno sy'n Gymbethaisol Gyfrifol a Chynhywsl**
Byddwch yn:

- Cefnogi'r economi a'r economi drwy ddarparu'r cefnogaeth a'r gwasanaethau sydd yn hysbysu'r economi, a'r hysbysu'r economi a'r hysbysu'r economi.
- Cefnogi'r economi a'r economi drwy ddarparu'r cefnogaeth a'r gwasanaethau sydd yn hysbysu'r economi, a'r hysbysu'r economi a'r hysbysu'r economi.

Sut byddwn ni'n gwneud hyn i gyd?
Byddwch yn:

- Cefnogi'r economi a'r economi drwy ddarparu'r cefnogaeth a'r gwasanaethau sydd yn hysbysu'r economi, a'r hysbysu'r economi a'r hysbysu'r economi.
- Cefnogi'r economi a'r economi drwy ddarparu'r cefnogaeth a'r gwasanaethau sydd yn hysbysu'r economi, a'r hysbysu'r economi a'r hysbysu'r economi.

OUR WELLBEING OBJECTIVES: FOCUSED ON THE FUTURE
Our contribution to the Wellbeing of Future Generations Act (WBFGA)

What's this about?
The Wellbeing of Future Generations Act has applied to the Welsh Ambulance Service since June 30, 2024.

Our Wellbeing Objectives
Objective 1: **A Socially Responsible and Inclusive Employer**
We will:

- Support communities and the economy by providing long-term employment and volunteering opportunities for people living across Wales, in all parts of their career and in a wide variety of roles.
- Continue to develop a diverse and expertly skilled workforce for the communities that we support and engaged in our organisation.
- Be an inclusive employer, valuing the communities we serve across Wales.
- Value our partnerships with trade unions and work in partnership to create an organisation that is welcoming, fair and where people can thrive.

Objective 2: **An Innovative and Sustainable Organisation**
We will:

- Be at the forefront of clinical care by harnessing technology in a way that minimises our environmental impact and improves patient safety and experiences.
- Make the most of our University Trust Status (UTS) to work with commercial and academic partners to look for innovative solutions, today.
- Continue to reduce our environmental impact, using more sustainable and carbon neutral solutions in our estate, fleet and working practices, to ensure we contribute to a greener, cleaner and healthier Wales.
- Manage our financial and physical assets well, so that we can provide viable services for the long term and be communities can rely on us to do these when they need us.

Objective 3: **A Pro-active, Accessible and Equitable Care Provider**
We will:


- Provide urgent and emergency care services that meet the needs of the people of Wales, wherever and whenever they are needed, improving outcomes and ensuring people can live healthier lives for longer.
- Continue to improve our services and performance, to the people of Wales, here and abroad, by ensuring our ability to be there when they need us most.
- Collaborate with our communities and partners, models of care that continue to meet the evolving needs of people in Wales and other parts of the world.
- Help make Wales a nation of Resilvers by supporting health education and promoting bystander CPR skills, improving community resilience.
- Enhance our cultural role as Wales' national ambulance service, showcasing our language and heritage while developing new ways of delivering care which position Wales as a leader on the national and international stage.

6.7 Gwefannau a Gwasanaethau Ar-lein (Safonau 39 – 43)

Mae gennym ddwy wefan, sef gwefan Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, a gwefan 111 Cymru, yr ydym yn ei gweithredu fel darparwr a gomisiynwyd o 111 ledled Cymru. Mae rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â'r gwefannau hyn wedi'u nodi isod.

6.7.1 Gwefan GIG 111 Cymru

Mae gwefan GIG 111 Cymru yn gweithredu ei chyfrifon cyfryngau cymdeithasol Facebook (FB) Cymraeg a Saesneg ei hun.



Metrig	FB NHS 111 Wales	FB GIG 111 Cymru
Cyrhaeddiad	132,294	2,467
Ymweliadau â thudalen	12,655	318
Rhyngweithiadau â'r cynnwys	4,262	90
Dilynwyr	7,014	106

Gwirwyr Symptomau Gwefan 111

Mae gwirwyr symptomau yn caniatáu i ddefnyddwyr gwefan 111 Cymru wirio eu symptomau a derbyn cyngor ar-lein ar beth i'w wneud nesaf. Nid oedd cyllid ac adnoddau ar gael ar gyfer cyfieithiadau gradd feddygol o'r gwiriwr symptomau yn 2024/25, felly ni ddiweddarwyd yr wybodaeth yn y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd. Cydnabu'r Ymddiriedolaeth y risg yr oedd gwirwyr symptomau sydd allan o ddyddiad yn ei hachosi ac felly datblygodd a chyflwynodd y risg i'r Bwrdd, gyda manylion camau lliniaru yn cael eu dilyn.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried ei bod yn flaenoriaeth diweddarau'r gwirwyr symptomau Saesneg er mwyn sicrhau diogelwch cleifion. Ar ddechrau 2025/26 cymeradwywyd cyllid i sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyflym. Ochr yn ochr â hynny, mae achos busnes wedi'i ddatblygu sy'n ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y wefan (gweler isod) ac mae hyn yn cynnwys y gofyniad am gyfieithiadau gradd feddygol o'r gwirwyr symptomau.

Datblygu gwefan GIG 111 Cymru

Fel y nodir uchod, mae sgysiau parhaus i sicrhau cyllid hirdymor pwrpasol ar gyfer gwefan GIG 111 Cymru, ei phensaerniaeth, cynhyrchu cynnwys, rheolaeth, neu sicrwydd clinigol. O ystyried safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddigidol yn gyntaf, cyflwyno ap GIG Cymru, a'r effaith y gallai gwefan addas at y diben ei chynnig yn y dyfodol, mae'r diffyg cyllid yn parhau i gynrychioli risg a her sylweddol.

Er bod y sefyllfa hon wedi aros yr un fath ers yr adroddiad diwethaf, mae WAST wedi adeiladu ar y gwaith darganfod blaenorol, i lywio creu achos busnes ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r achos busnes hwn a'r cyfathrebu parhaus â Llywodraeth Cymru yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol mynediad digidol ac integreiddio ar gyfer GIG 111 ar-lein, sy'n cynnwys y gofyniad am gyfieithiad Cymraeg ar gyfer cynnwys sydd wedi'i gynnwys ynddo.

Cynorthwydd Rhithwir

Mae WAST wedi cyflwyno 'cynorthwydd rhithwir' eleni ar ei wefan 111, gan ganiatáu i ddefnyddwyr ofyn cwestiynau a chael ymateb o'r wefan bresennol. Mae'r cynorthwydd rhithwir hwn yn gallu deall ac ymateb yn y Gymraeg a bydd yn cychwyn y rhyngweithio yn y Gymraeg os yw togl y wefan wedi'i ddefnyddio i ddewis y Gymraeg.

6.8 Cyfryngau cymdeithasol (Safonau 45 – 46)

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gyfer Facebook a Twitter. Mae pob postiad Saesneg yn cael ei atgynhyrchu yn y Gymraeg yn rheolaidd.

Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol Dwyieithog: Data (01 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025)
O ran ein cydymffurfedd â'r safonau sy'n ymwneud â chyfryngau cymdeithasol, ers yr adroddiad blynyddol blaenorol mae rhai llwyfannau cyfryngau cymdeithasol wedi newid eu dadansoddeg. Mewn ymateb mae'r Ymddiriedolaeth wedi newid ei llwyfan amserlennu a'i safbwynt ar X (Twitter gynt). Nod yr Ymddiriedolaeth yw parhau i ddefnyddio'r platfform amserlennu presennol, a ddylai ein galluogi i gynnal cysondeb mewn dadansoddeg a galluogi cymariaethau ystyrlon â data blaenorol. Bydd y parhad hwn yn cefnogi ein hymdrechion i nodi cyfleoedd i wella ymgysylltiad drwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

X (Twitter gynt)

Ym mis Tachwedd 2024, gwnaeth WAST y penderfyniad i gyfyngu ei weithgarwch ar X i rybuddio a hysbysu yn unig. Bydd hyn yn cynnwys postio pan fydd y gwasanaeth wedi datgan BCI neu Ddigwyddiad Critigol neu pan fydd yn profi galw cynyddol ee. oherwydd oedi wrth drosglwyddo neu lif o alwadau i 999/111 ac rydym yn cael trafferth cyrraedd cleifion mewn modd amserol. Am y rheswm hwn, ynghyd ag anhygyrchedd dadansoddeg X ers newid Twitter i X, y data canlynol yw'r cyfan sydd ar gael.

	@Ambiwlans_Cymru	@WelshAmbulance
Cyfanswm y dilynwyr	398	23.6mil

Facebook

	Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	Welsh Ambulance Services NHS Trust
Cyfanswm y dilynwyr	284	38,761
Ymweliadau â thudalen	1,296	149,359
Cyfanswm y cyrhaeddiad	8,635	1,029,694
Rhyngweithiadau â'r cynnwys	240	75,440
Y nifer sy'n agor dolenni	15	13,147

Instagram

	Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru	Welsh Ambulance Services NHS Trust
Cyfanswm y dilynwyr	42	4,885
Cyrhaeddiad	22	26,497

Yn flaenorol, roedd y prif gyfrif Instagram yn ddwyieithog. Fodd bynnag, ers mis Ionawr 2025, rydym wedi cael dau gyfrif ar wahân ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg.

LinkedIn

Y plattform hwn yw ein hunig gyfrif dwyieithog sydd ar ôl. Fodd bynnag, rydym yn gwahanu postiadau i'r Gymraeg a'r Saesneg felly nid yw un iaith yn cael ei ffafrio. Dim ond dadansoddeg o flwyddyn yn ôl y mae'n ei ganiatáu. Yr unig ystadegau sydd ar gael yw'r rhai o **01 Mehefin 2024 i 31 Mawrth 2025**.

	WAST
Cyfanswm y dilynwyr	6,994
Argraffiadau	227,307
Ymweliadau â thudalennau	7,009

6.9 Arwyddion a Hysbysiadau (Safonau 47 - 49)

Yn 2023/24 fe wnaethom ymrwymo i ddatblygu canllawiau ar gyfer y timau Ystadau a Fflyd ar ddylunio ac arddangos arwyddion a hysbysiadau dwyieithog (roedd hyn yn cynnwys yr angen i'r timau Ystadau a Fflyd wirio gydag aelodau Tîm y Gymraeg ar ddelweddau a gynhyrchwyd o unrhyw arwyddion arfaethedig cyn eu cynhyrchu a'u defnyddio); Sicrhau bod Canllawiau Brand Corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn adlewyrchu gofynion Safonau'r Gymraeg er mwyn sicrhau cydymffurfedd ag arwyddion a hysbysiadau yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg wedi'i lleoli fel ei bod yn debygol o gael ei darllen yn gyntaf.

Dangosodd canlyniadau'r arolwg hunanasesu a dderbyniwyd gan ein Hadran Ystadau fod cydymffurfedd uchel â'r safonau sy'n ymwneud ag arwyddion ac ychwanegodd sicrwydd, lle mae angen arwyddion, fod yr holl arwyddion adeiladau, arwyddion statudol ac arwyddion cyfeiriadol ar gael yn y Gymraeg, gyda'r cyfieithiad Cymraeg

wedi'i leoli fel ei bod yn debygol y caiff ei ddarllen yn gyntaf. Mae ystadau'n ymgysylltu'n rheolaidd â Thîm y Gymraeg i gymeradwyo arwyddion dwyieithog a'u defnyddio'n gywir.

I gael sicrwydd ychwanegol yn 2025/25, bydd Ystadau'n cael canllawiau defnyddiol ar arwyddion dwyieithog a ddatblygwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhyrchwyd arwyddion mewnol newydd ar gyfer Canolfan Gyfathrebu Gwasanaethau Meddygol Brys newydd yr Ymddiriedolaeth yn Nhŷ Elwy, Llanelwy fel y dangosir isod. Yn ogystal, er mwyn hyrwyddo cyngor arbed ynni i'n staff, gosodwyd arwyddion dwyieithog 'Ewch yn Wyrdd' ym mhob un o adeiladau'r Ymddiriedolaeth.



6.10 Gwasanaethau'r Dderbynfa (Safonau 50 - 53)

Er mwyn deall yn llawn ein gofyniad cydymffurfio ar ddarparu gwasanaethau derbynfa yn y Gymraeg, yn ystod 2024/25 cynhaliodd y Tîm Ystadau hunanasesiad o safleoedd yr Ymddiriedolaeth sy'n cynnig gwasanaeth derbynfa.

Dangosodd canlyniadau'r adolygiad a gynhaliwyd gan y Tîm Ystadau fod ein gallu i ddarparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn ein prif safleoedd yn isel oherwydd staff nad ydynt yn siarad Cymraeg yn gweithio yn y manau derbynfa hynny. Ystyriwyd bod sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer swydd derbynfa a hysbysebwyd yn ystod y cyfnod adrodd.

Yn 2025/26 mae ein Hadran Ystadau yn bwriadu creu rhestr o bwyntiau cyswllt y gall staff gysylltu â nhw os bydd angen darparu gwasanaeth derbynfa neu os bydd angen ymateb yn y Gymraeg i ymholiad cyhoeddus wrth fynd i mewn i'n hadeiladau. Yn

ogystal, bydd Tîm y Gymraeg yn cefnogi'r aelodau staff hynny sy'n gweithio yn ein derbynfeydd i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg trwy gwrs 'Cyfarfod a Chyfarch' i Ddechreuwr yn y Gymraeg.

Mae cardiau adnabod / mynediad yr ymddiriedolaeth (sy'n cynnwys teitlau swyddi staff a logo WAST) yn ddwyieithog.

6.11 Dyfarnu Contractau (Safonau 57 - 59)

Caiff gwahoddiadau i dendro eu cyhoeddi'n ddwyieithog os yw pwnc y gwahoddiad i dendro yn awgrymu y dylid ei gynhyrchu yn Gymraeg, neu os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cynhyrchu'r testun yn Gymraeg. Gellir cyflwyno tendrau yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ni chyhoeddwyd unrhyw geisiadau am dendrau neu gontractau yn Gymraeg ac ni dderbyniwyd yr un yn Gymraeg.

6.12 Hunaniaeth Gorfforaethol (Safon 62)

Ar 1 Ebrill 2024, dyfarnwyd statws Ymddiriedolaeth Brifysgol i'r Ymddiriedolaeth ac o ganlyniad diweddarwyd logo GIG Cymru i adlewyrchu hyn. Dyfarnwyd statws Ymddiriedolaeth y Brifysgol gan Lywodraeth Cymru i gydnabod ein hymrwymiad i hyrwyddo ymchwil ac arloesedd a datblygu'r gweithlu presennol a'r dyfodol.

Yn dilyn diweddarau'r logo a Bathodyn y Goron GIG Cymru yr Ymddiriedolaeth yn 2024, fe wnaethom barhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl asedau ffisegol a digidol yn adlewyrchu'r brandio newydd. Mae ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol bellach yn defnyddio'r brandio newydd.



Uchafbwynt nodedig ar gyfer 2024-25 oedd bathu darn arian coffa newydd yn cynnwys Bathodyn y Goron wedi'i ddiweddarau, a fydd yn cael ei gyflwyno yng Ngwobrau Gwasanaeth Hir yn 2025/26.

7. Safonau Llunio Polisi (Safonau 69 – 77)

Mae pob polisi newydd a diwygiedig a weithredir gan yr Ymddiriedolaeth yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Mae'r Gymraeg yn faes cydraddoldeb safonol a gofynnir i staff sy'n llunio polisiâu newydd neu ddiwygiedig ystyried yr effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol a allai ddeillio o'r polisi hwnnw ar y Gymraeg. Mae cefnogaeth gan y Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg ar gael i unrhyw gydweithiwr sy'n cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac mae'n weithdrefn safonol ar gyfer pob polisi newydd a diwygiedig.

Mae Grŵp Polisi'r Ymddiriedolaeth yn goruchwyllo'r prosesau llywodraethu wrth adolygu polisiâu newydd neu ddiwygiedig, ac mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth / pywllgorau perthnasol yn derbyn sicrwydd bod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau wrth gymeradwyo polisiâu a neilltuwyd.


Yn ystod y cyfnod adrodd, cymeradwywyd cyfanswm o 26 o bolisiau a oedd yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth (o'i gymharu ag 11 polisi yn 2023/24) - ac roedd gan bob un ohonynt Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig a oedd wedi'i adolygu a'i lofnodi gan Bennaeth Cynhwysiant ac Ymgysylltu'r Ymddiriedolaeth.

8. Safonau Gweithredu (Safonau 79 - 114)

Mae'r set hon o Safonau Gweithredol yn ymdrin â'r ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ac yn rhoi'r hawl i weithwyr dderbyn gwasanaethau Gwasanaethau Pobl yn eu dewis iaith.

8.1 Polisi ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg (Safon 79)

Fel rhan o Fframwaith y Gymraeg newydd yr Ymddiriedolaeth, yn ystod 2023/24 fe wnaethom ddatblygu Polisi Iaith Gymraeg newydd, a gymeradwywyd gan y Bwrdd, sy'n disgrifio'r camau y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i feithrin ethos dwyieithog o fewn y sefydliad. Yn ogystal, mae'r polisi'n nodi meysydd Safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i'n pobl gydymffurfio â nhw, tra'n esbonio pam mae'r rhain yn bwysig i ni yn WAST a sut maent yn alinio i ddarparu Cynnig Rhagweithiol i'n pobl a'n cleifion. Hyrwyddwyd y Polisi Iaith Gymraeg newydd ar draws y sefydliad drwy ein sianel newyddion mewnol Siren. Yn ystod 2024/25 roedd



The image shows the header and a table from the 'Polisi Iaith Gymraeg' document. The header includes logos for GIG, NHS, and the University NHS Trust, along with the title 'Polisi Iaith Gymraeg'. Below the header is a table with the following content:

Polisi Iaith Gymraeg					
Idar Polisi:	113	Ifer y Fframwaith:	11.0	Disoddi:	N/A (Polisi Newydd)
Dyddiad Cychwyn:	14/11/2024	Dyddiad Adolygu:	14/11/2027	Aseidiad o'r Uchaf a Guchwyn:	Do - Eidd wedi'i gyflwyno
Ddisgrifiad y Ddogfen:	Cororaethol	Mudi o Adolygu:	Polisi	Cymeradwya d gae:	Y Pwyllgor Pŵl a Diwylliant
Cyngor i'r Gydlyn:	Diben y polisi hon yn sefydlu cyfnewidau o ran defnyddio'r Gymraeg yn fewnol i sicrhau cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac i hybu a hyrwyddo'r defnyddio'r Gymraeg.				
Cwestiyn:	Mae'r polisi hon yn berthnasol i'r holl staff a gyflwr gan Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambwlans Cymru, gweithdrefn Cyfarwyddwr Anweillredol, ein pobl a chofrestrwyd trydydd parti.				
Ynghyd â'r Gydlyn:	Rheoladau Safonau'r Gymraeg (Rheol 7) 2013.				
Ynghyd â'r Gydlyn:	Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau Iaith Gymraeg WAST.				
Y Pwyllgor sy'n Fodlon:	Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant				
Arweiniad y Polisi:	Mallyn Hughes	Teddy Swydd:	Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg	Partner Undeb Llŷder	

Tîm y Gymraeg yn bwriadu cymryd rhan yn Sioe Deithiol y Prif Swyddog Gweithredol a drefnir ddwywaith y flwyddyn ac sy'n ymweld â lleoliadau ledled Cymru i ymgysylltu â staff. Y bwriad oedd cael carwsél ym mhob digwyddiad i hyrwyddo mentrau iaith Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth o Bolisi'r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth a Safonau'r Gymraeg.

Gwobr y Gymraeg



Fel ffordd o hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol yn y sefydliad, rydym wedi cyflwyno 'Gwobr y Gymraeg' fel un o'r categorïau ar gyfer Gwobrau Staff Blynyddol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r wobr yn cydnabod staff sydd wedi helpu i hyrwyddo'r Gymraeg a gwella darpariaeth ddwyieithog mewn gofal iechyd.

Fel rhan o wobrau staff eleni, derbyniwyd tri enwebiad cryf. Tîm y gwasanaeth 111 oedd enillydd Gwobr y Gymraeg am eu gwaith yn gwella perfformiad y gwasanaeth wrth ateb galwadau i'r gwasanaeth yn y Gymraeg. Cafodd Caitlin Davies, Anfonwr Meddygol Brys 999 ganmoliaeth uchel am ei gwaith wrth ddelio â chleifion yn y Gymraeg.



Hwb Iaith

Mae Tîm y Gymraeg wedi bod yn diweddarau gwefan SharePoint gyda gwybodaeth gynhwysfawr am y Gymraeg. Drwy gydol 2024/25, ehangodd y tîm yr adnoddau sydd ar gael ar y wefan yn sylweddol, gan gwmpasu canllawiau a phwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg.



Safonau'r Gymraeg / Welsh Language Standards
nhswales365.sharepoint.com

Beth yw Safonau'r Gymraeg a pham maen nhw'n bwysig?
What are the Welsh Language Standards and why are they important?



Canllawiau Cyflym / Quick Guides
nhswales365.sharepoint.com

Yr hyn a disgwyllir gan bob aelod o staff.
What we expect from every member of staff.



Dysgu Cymraeg / Learning Welsh
nhswales365.sharepoint.com

You can start learning Welsh by following these online taster courses that are tailored for the Health Care sector.

Mae safle SharePoint bellach yn gwasanaethu fel canolfan ganolog ar gyfer y newyddion, y digwyddiadau a'r datblygiadau diweddaraf sy'n ymwneud â'r Gymraeg o fewn yr Ymddiriedolaeth.



Rhwydwaith Cymraeg

Sefydlwyd Rhwydwaith Cymraeg newydd yr Ymddiriedolaeth, 'Rhwyd-iaith', yn ystod y cyfnod adrodd i ddarparu fforwm agored a thryloyw i staff yn WAST sy'n cefnogi defnydd a thwf y Gymraeg a diwylliant o fewn y sefydliad.

Mae'r Rhwydwaith Cymraeg yn eistedd ochr yn ochr â'n rhwydweithiau pobl eraill yn WAST ac yn cyfrannu at ddiwylliant ehangach o gynhwysiant.

8.2 Dogfennau Cyflogaeth (Safonau 80 – 82)

Ar gais, byddwn yn darparu dogfennau sy'n ymwneud â chyflogaeth i'w darparu yn Gymraeg hy: dogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion hyfforddi; dogfennau sy'n amlinellu amcanion perfformiad; dogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi cynllun gyrfa; ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol; ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi absenoldebau o'r gwaith a ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi oriau gwaith hyblyg. Yn ystod y cyfnod adrodd ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau o'r fath gan staff.

Rydym hefyd wedi sicrhau bod y dogfennau canlynol wedi'u cyfieithu pe bai unrhyw aelod o staff yn dymuno eu derbyn trwy gyfrwng y Gymraeg: llythyrau newid oriau, estyniadau secondiad a chytundeb cyflogaeth. Lle mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn cyhoeddi contractau cyflogaeth (drwy'r broses recriwtio o fewn TRAC), caiff y rhain eu cyhoeddi'n rheolaidd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

8.3 Prosesau Cysylltiadau â Chyflogeion (Safonau 83 – 88)

Mae proses yr Ymddiriedolaeth o ddelio â chwynion staff a'r weithdrefn ddisgyblu yn y Gymraeg wedi'i chryfhau drwy ddiweddarau cofrestr Swyddogion Ymchwilio yr Ymddiriedolaeth gyda manylion ein siaradwyr Cymraeg – mae hyn yn galluogi cynnal ymchwiliad yn y Gymraeg os gofynnir amdano. Yn ystod y cyfnod adrodd ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am Swyddog Ymchwilio sy'n siarad Cymraeg.

8.4 Recriwtio a Phenodi (Safonau 106 – 109)

Defnyddir siartiau llif canllaw/proses i gynorthwyo rheolwyr cyn i unrhyw swydd gael ei hysbysebu. Mae'r broses yn darparu manylion gwasanaethau cyfieithu yn ogystal â rhywfaint o eiriad hysbyseb safonol a swydd ddisgrifiad i gynorthwyo rheolwyr. Mae ein gwasanaeth cyfieithu mewnol wedi'i sefydlu i gefnogi anghenion cyfieithu'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r ffurflen asesu a gyflwynwyd gennym i bob rheolwr ei llenwi er mwyn helpu i asesu'r gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer swyddi yn parhau i gael ei defnyddio. Mae hyn yn rhan o nifer o bwyntiau gwirio eraill, cyn rhyddhau post ar gyfer hysbyseb.

8.5 Asesu a chofnodi sgiliau iaith Gymraeg ar draws y gweithlu (Safonau 96 a 116 Safon Cadw Cofnodion)


O gyfanswm o 4,427 o aelodau staff, mae 4,248 (95.96%) wedi hunanasesu a chofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar y system Cofnod Staff Electronig (ESR). Mae hwn yn gynydd ar y 3,949 aelod o staff (91.48%) a gofnodwyd yn 2023/24.

Mae'r sgiliau gwrando/siarad Cymraeg a gofnodwyd ar yr ESR fesul cyfarwyddiaeth (ar 31 Mawrth 2025) fel a ganlyn:

Cyfarwyddiaeth	Angenrheidiol	Cyflawni	% Cydymffurfedd
Prif Weithredwr	19	17	89.47%
Llywodraethu Corfforaethol	8	8	100%
Digidol	75	74	98.67%
Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol	120	120	100%
Clinigol	86	86	100%
Gweithrediadau	3847	3674	95.50%
Partneriaethau ac Ymgysylltu	12	12	100.00%
Pobl a Diwylliant	112	112	100%
Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf	127	127	100%
Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad	21	18	85.71%

8.6 Sgiliau Iaith Gymraeg y Proffil Staff – Gwrando/Siarad

0 - Dim Sgiliau	1 - Mynediad	2 - Sylfaen	3 - Canolradd	4 - Uwch	5 - Hyfedredd	Anhysbys	Cyfanswm terfynol
2414	816	280	169	170	401	178	4428



Fel rhan o'n cyflawniadau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2025/26, byddwn yn ymgysylltu â'n staff i sicrhau bod eu cymwyseddau iaith Gymraeg ESR yn gyfredol, bydd hyn yn helpu i lywio dadansoddiad bylchau i bennu lefel bresennol y sgiliau iaith Gymraeg ar draws yr Ymddiriedolaeth ym mhob maes gwasanaeth. Yn dilyn dadansoddiad o'r bylchau, cynhelir gwaith ymgysylltu â'r meysydd gwasanaeth blaenoriaeth hynny sy'n delio â chleifion a'r cyhoedd yn uniongyrchol, ar alluoedd sgiliau iaith Gymraeg yr unigolion yn eu timau er mwyn nodi'r anghenion darpariaeth gwasanaeth iaith Gymraeg cyfredol.

Hyfedredd yn y Gymraeg fesul Cyfarwyddiaeth

Cyfarwyddiaeth	Canolradd	Uwch	Hyfedredd
Prif Weithredwr	1	1	0
Llywodraethu Corfforaethol	0	0	2
Digidol	1	1	6
Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol	1	7	11
Clinigol	1	2	7
Gweithrediadau	153	151	356
Partneriaethau ac Ymgysylltu	0	2	0
Pobl a Diwylliant	4	2	8
Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf	8	4	10
Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad	0	0	1
Cyfanswm	169	170	401

Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, cofnodwyd bod 740 o aelodau staff yn rhugl yn y Gymraeg (o'i gymharu â 701 yn 2023/24). Mae hyn yn cyfateb i 17% o'r rhai sydd wedi cofrestru eu sgiliau Cymraeg (o'i gymharu â 16% yn 2023/24).

Er mwyn cynyddu sgiliau Cymraeg ein gweithlu yn 2024/25 byddwn yn parhau i hyrwyddo'r cwrs Cymraeg sy'n benodol ar gyfer dechreuwyr i'r GIG sydd ar gael i'n staff drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ynghyd â'n cwrs ESR Ymwbyddiaeth Iaith Gymraeg gorfodol.

8.7 Swyddi Newydd a Gwag (Safon Cadw Cofnodion 117)

Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r swyddi a hysbysebwyd rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Oherwydd bod gan wasanaeth cyfieithu'r Ymddiriedolaeth fynediad at feddalwedd cof cyfieithu PCGC, gwnaed arbedion effeithlonrwydd o ran sicrhau bod pob swydd ddisgrifiad yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg.. Mae gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl brosesau ar waith i reolwyr recriwtio anfon disgrifiadau swyddi cymeradwy i Wasanaeth Cyfieithu mewnol yr Ymddiriedolaeth.

Categori	Nifer y swyddi wedi'u categorio		Canran y swyddi a hysbysebwyd	
	2024-25	2023-24	2024-25	2023-24
Sgiliau Cymraeg yn hanfodol	2	4	0.47%	1.3%
Sgiliau Cymraeg yn ddymunol	420	292	99%	98%
Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd	0	0	0%	0%
Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol	0	0	0%	0%

Yn dilyn y gofynion ar gyfer asesu swydd newydd neu swydd wag o ran yr angen am sgiliau iaith Gymraeg, barnwyd bod sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol lle bo'n bosibl ar gyfer swyddi Derbynwyr Galwadau Band 2 y Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS). Mae cyfanswm o 21 o dderbynwyr galwadau NEPTS, ac mae chwech ohonynt yn siaradwyr Cymraeg.

Mae cyfweiliadau swyddi ar gyfer swyddi gwag wedi cael eu hwyluso yn y Gymraeg mewn ymateb i geisiadau gan ymgeiswyr.

8.8 Hyfforddiant (Safon 97)

Mae'r tabl isod yn dangos y cyfleoedd a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth i'n staff dderbyn hyfforddiant yn y Gymraeg yn y meysydd canlynol, os yw hyfforddiant o'r fath ar gael yn Saesneg: recriwtio a chyfweld; rheoli perfformiad; gweithdrefnau cwynion a disgyblu; sefydlu; delio â'r cyhoedd; ac iechyd a diogelwch.

Math o Hyfforddiant	Nifer a ofynnodd am fersiwn Gymraeg o'r cwrs	Nifer a fynychodd fersiwn Saesneg y cwrs	Canran a fynychodd y fersiwn Gymraeg
Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu	0	298	0
Sefydlu	0	512	0
Iechyd a Diogelwch	0	61	0

Mae pob 'Diwrnod Croeso WAST' lle mae aelodau newydd o staff yn cael eu cyflwyno i'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys elfen o'r Gymraeg (cyfarch yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog, fideo ymddygiadau WAST Cymraeg, cyfeiriad at safonau'r Gymraeg a deunyddiau dysgu, gyda rhai ohonynt yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau yn ystod y cyfnod i ddarparu ein sesiwn sefydlu corfforaethol yn y Gymraeg.

Fel yn y flwyddyn adrodd flaenorol, cyflwynwyd cyrsiau Rheoli'n Ddiogel ac Arwain yn Ddiogel IOSH yn Saesneg gan fod y cyrsiau hyn yn gyrsiau hyfforddi achrededig gan IOSH, ac nid ydynt ar gael yn y Gymraeg gan fod y cynnwys yn cael ei ddarparu'n allanol.

Mae'r cyrsiau ESR canlynol ar gael i'n bobl yn y Gymraeg:

- Colled Synhwyrdd
- Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif
- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais
- Cyflwyniad i Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (RRAILS)
- Aseiad A - E (RRAILS)
- Ymwybyddiaeth o Ofalwyr
- Hyfforddiant Orlhain Cysylltiadau Covid-19

Cwblhaodd 153 aelod o staff y cwrs Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais yn y Gymraeg. Ni chwblhawyd unrhyw gwrs arall yn y Gymraeg.

8.9 Hyfforddiant i Wella Sgiliau Iaith Gymraeg (Safonau 99 - 101)

Mae'r modiwl ar-lein 'Croeso Cymraeg Gwaith' wedi bod yn allweddol i'r Ymddiriedolaeth wrth gefnogi staff sydd ar ddechrau eu taith i ddysgu Cymraeg. Cwblhaodd cyfanswm o 16 aelod o staff (o'i gymharu â 9 yn 2023/24) fodiwl e-ddysgu i ddechreuwyd yn y Gymraeg a hwyluswyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Fel rhan o'r gwaith i ddatblygu'r Cynllun Gweithlu Strategol rydym yn ymgysylltu â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ynglŷn â datblygu sesiynau hyder yn y Gymraeg ar gyfer staff yr Ymddiriedolaeth a hoffai gynyddu eu hyder i siarad Cymraeg gyda defnyddwyr ein gwasanaethau.

8.10 Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Safonau 102 – 103)

Mae 'diwrnodau Croeso' yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Yn ystod y cyfnod adrodd, cyflawnodd cyfanswm o 512 aelod o staff (o'i gymharu â 407 yn 2023/24) yr hyfforddiant hwn.

Ers cyflwyno'r cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gorfodol ar 01 Ebrill 2023, hyd at 31 Mawrth 2025, mae 70.93% o staff yr Ymddiriedolaeth (o'i gymharu â 61.13% yn 2023/24) wedi cwblhau'r cwrs. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r hyfforddiant dros y flwyddyn nesaf i gynyddu nifer y staff sy'n cwblhau'r hyfforddiant i gyflawni cydymffurfiaeth o leiaf 90%.

8.11 Hyrwyddo'r Gymraeg

Yn ystod y cyfnod adrodd hyrwyddwyd y Gymraeg yn ystod Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Miwsig Cymru.

Yn ogystal, datblygwyd fideos YouTube sgiliau cwrteisi iaith yn y Gymraeg gan Dîm y Gymraeg yr Ymddiriedolaeth a'u hyrwyddo i'n pobl drwy wefan SharePoint yr Ymddiriedolaeth.



8.12 Ein Gwasanaeth Cyfieithu


Ers sefydlu Gwasanaeth Cyfieithu'r Ymddiriedolaeth ym mis Medi 2023, mae wedi mynd o nerth i nerth, gan gyfieithu dros 948,825 o eiriau. Mae'r ddarpariaeth hon yn ffactor allweddol sy'n galluogi cydymffurfio â llawer o'r safonau ee gohebiaeth, dogfennau, ffurflenni, arwyddion, cyfryngau cymdeithasol a chynnwys gwe.

Mae gan y Gwasanaeth Cyfieithu fynediad a rennir at feddalwedd cof cyfieithu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC). Mae'r feddalwedd hon wedi gwella cysondeb ac yn cyflymu'r broses gyfieithu, gan ganiatáu mwy o amser i brawffddarllen dogfennau ac wrth weithio ar brosiectau ailadroddus fel swydd disgrifiadau, diweddarau polisiâu neu adroddiadau blynyddol. Mae hefyd yn helpu i gynnal cywirdeb a chysondeb terminoleg ar draws y prosiectau mawr hyn.

Mae manteision cael mynediad at gof mor helaeth hefyd yn cynnwys cael mynediad at gronfeydd termau a rennir i gynorthwyo gyda dogfennau technegol neu feddygol, newidiadau wedi'u holrhain i amlygu ble mae newid wedi digwydd i arbed amser i'r cyfieithydd wrth chwilio am y golygiad neu'r diweddariad i destun. Mae'n caniatáu amseroedd dychwelyd cyflymach na fyddai'n bosibl heb y cof a thechnoleg cyfieithu peirianyddol.

Mae'r graff isod yn dangos y cynnydd yn y galw am nifer y geiriau a gyfieithwyd gan y gwasanaeth cyfieithu ynghyd â'r gostyngiad yn y defnydd o ddarparwyr gwasanaethau cyfieithu allanol.

Cymhariaeth o ddata'r Gwasanaeth Cyfieithu Bl 1 a 2



Mae Blwyddyn 1 yn cynrychioli cychwyn y gwasanaeth ym mis Medi 2023 ac mae Blwyddyn 2 yn cynrychioli blwyddyn lawn gyntaf y gwasanaeth o weithredu.

9. Cwynion (Safon Cadw Cofnodion 115)

Isod, ceir rhestr o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2024/25 ynghyd â chrynodeb o'r camau a gymerwyd. Yn ystod y cyfnod adrodd, derbyniwyd cyfanswm o ddau gŵyn:

Rhif	Cwyn	Ymateb a'r cam gweithredu
1	<p>Ym mis Mehefin 2024 derbyniwyd cwyn gan Aelod o'r Senedd ar ran ei etholwr nad oedd yn gallu cael ei alwad i Wasanaeth 111 GIG Cymru ei thrin yn y Gymraeg.</p> <p>Roedd yr achwynydd wedi cysylltu â'r Gwasanaeth 111 ac wedi dewis yr opsiwn Cymraeg. Ar ôl aros am oddeutu 15 munud, derbyniodd yr achwynydd neges llais yn nodi nad oedd aelod o staff oedd yn siarad Cymraeg ar gael i ateb eu galwad a throsglwyddwyd eu galwad i'r gwasanaeth Saesneg.</p>	<p>Cysylltwyd â'r achwynydd ac ymddiheurwyd am ddiffyg argaeledd Derbynydd Galwadau oedd yn siarad Cymraeg ar yr union adeg ei alwad i'r Gwasanaeth 111.</p>

2	Ym mis Awst 2024, derbyniwyd cwyn drwy PTR.Concern@wast.uk gan aelod o'r cyhoedd nad oedd yn gallu cael eu galwad i Wasanaeth 111 GIG Cymru ei thrin yn y Gymraeg. Dywedodd yr achwynydd y dylai gwasanaeth Cymraeg fod ar gael i'r henoed nad ydynt o reidrwydd yn gyfforddus yn siarad Saesneg.	Cysylltwyd â'r achwynydd gan y gwasanaeth 111 ac ymddiheurwyd ynghyd â manylion ymchwiliad a gynhaliwyd a ddaeth i'r casgliad bod pob un o'r 4 triniwr galwadau a oedd yn siarad Cymraeg ar adeg galwad yr achwynydd yn delio â galwadau eraill ar y pryd ac, er mwyn osgoi unrhyw oedi pellach wrth ateb eu galwad, bod eu galwad wedi'i thynnu o'r ciw gan y system a'i rhoi i'r asiant nesaf oedd ar gael nad oedd yn gallu siarad Cymraeg.
---	--	--

10. Edrych Ymlaen - Blaenoriaethau ar gyfer 2025-2026

Fel rhan o'n cyflawniadau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2025/26, byddwn yn ymgysylltu â'n staff i sicrhau bod eu cymwyseddau iaith Gymraeg ESR yn gyfredol, bydd hyn yn helpu i lywio dadansoddiad bylchau i bennu lefel bresennol y sgiliau iaith Gymraeg ar draws yr Ymddiriedolaeth ym mhob maes gwasanaeth. Yn dilyn dadansoddiad o'r bylchau, cynhelir gwaith ymgysylltu â'r meysydd gwasanaeth blaenoriaeth hynny sy'n delio â chleifion a'r cyhoedd yn uniongyrchol ar alluoedd sgiliau iaith Gymraeg yr unigolion yn eu timau er mwyn nodi'r anghenion darpariaeth gwasanaeth iaith Gymraeg cyfredol.

Yn ogystal, fel y nodwyd yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025-2028, bydd yr Ymddiriedolaeth yn datblygu Cynllun Ymgynghori Clinigol yn y Gymraeg yn unol â Safon 110. Bydd hyn yn nodi'r camau gweithredu a fydd yn cynyddu gallu'r Ymddiriedolaeth i gynnig a chynnal ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg.

Byddwn yn ehangu ein llinell sylfaen cydymffurfio â safonau'r Gymraeg a fydd yn cael ei hyrwyddo ar draws yr Ymddiriedolaeth ac yn dathlu enghreifftiau o arfer da.

Bydd cwrs Cymraeg i ddechreuwr newydd ar gyfer staff y Gwasanaethau Meddygol Brys yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd y cwrs yn gwrs wedi'i deilwra dan arweiniad tiwtor ar Teams ar gyfer staff sydd eisiau gallu ymgysylltu â'n cleifion sy'n siarad Cymraeg ar y pwynt cyswllt cyntaf hwnnw.

Bydd Tîm y Gymraeg yr Ymddiriedolaeth yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau wedi'u cynllunio i hyrwyddo'r Gymraeg i staff yr Ymddiriedolaeth ac i'r cyhoedd drwy weithgareddau ymgysylltu digidol ac wyneb yn wyneb ee. yr Eisteddfod Genedlaethol, Wrecsam.

Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn goruchwyllo'r targedau i'w gyflawni yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig bob deufis.

Gwybodaeth Bellach

I gael rhagor o wybodaeth am Safonau'r Gymraeg, cysylltwch â:

Melfyn Hughes
Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Tŷ Elwy
Ffordd Richard Davies
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0LJ

E-bost: Melfyn.hughes@wales.nhs.uk